Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n awgrymu rhesymau cryf ar hyn o bryd a thros barhau cyllid craidd yn seiliedig o amgylch:

- Model a brofwyd yn llwyddiannus wrth ysgogi cyllid sector preifat er budd y gymuned;
- Tystiolaeth anecdotaidd fod Sefydliadau sy'n dyfarnu grantiau yn y Deyrnas Unedig yn ei chael yn anodd dosbarthu cronfeydd yng Nghymru;
- Sefyllfa arbenigol heb unrhyw ddewis arall amlwg yng Nghymru;
- Model newydd effeithiol a blaengar o Gronfeydd Ardal ar gyfer tyfu'r CFiW yng Nghymru;
- Mynediad i rwydwaith ar draws y Deyrnas Unedig o gynlluniau dyfarnu grantiau a chefnogaeth drwy'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol.

**Sefydliad Codi Arian Cymru (IoFC)**

Mae elfennau effeithiol o waith cyllid craidd effeithol yr IoFC yn cynnwys:

- Defnyddio cynadleddau, hyfforddiant a digwyddiadau rhwydweithio, fel dull o ddod â chodwyr arian at ei gilydd;
- Dewisiadau blaengar o ran pynciau hyfforddiant a thrafod yn y gwahanol ddigwyddiadau gan gydnabod cyd-destun ac anghenion penodol codwyr arian yng Nghymru;
- Darpariaeth gwybodaeth ymarferol a chyfoes;
- Dull gweithredu cynhwysol: rhoi cefnogaeth i aelodau a rhai heb fod yn aelodau fel ei gilydd;
- Darparu cyngor, gwybodaeth ac arfer da;
- Cynnig gwasanaeth ansawdd uchel, gan danlinellu gallu arbenigol.

Bu'r IoFC yn fras lwyddiannus wrth gyflawni ei dargedau cyllid craidd - er bod ffocws yr IoFC ar hyfforddiant, cyngor a lledaenu arfer da'n golygu fod mesurau targed yn cael eu gyrru gan allbwn yn hytrach na chanlyniad. Fodd bynnag, ni osodwyd targedau ar gyfer cyllid ychwanegol a gynhyrchwyd gan sefydliadau'n manteisio o gefnogaeth yr IoFC. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i asesu effaith ehangach gwaith yr IoFC yng Nghymru.

